# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Lee Pritchard

Yr Alban

Systemau pori padogau ar ffermydd mynydd

Tachwedd 2018

## 1. Cefndir

Rwy’n ffermio mewn partneriaeth gyda Lorraine Howells ar fferm Cwmcarno, Rhymni. Fferm ucheldir yw hi’n bennaf ond mae rhannau hefyd yn borfa ar dir gwell ac is.

Ym mis Mehefin 2018, mynychais ddigwyddiad pesgi a magu ŵyn ar borfa gyda Cyswllt Ffermio yng Nghlwb Golff Aberpennar. Rhoddodd Michael Blanche, arbenigwr sy’n adnabyddus yn rhyngwladol, gyflwyniad am ei Ysgoloriaeth Nuffield ar bori padogau a phori cylchdro, a sut mae wedi rhoi’r hyn mae wedi ei ddysgu ar waith ar ei fferm ucheldir yn Perth. Mae fy fferm yn Rhymni yn debyg i fferm Michael, ac roedd diddordeb gennyf i glywed sut fedrodd Michael, sy’n ffermwr o’r genhedlaeth gyntaf, wella’r rheolaeth pori ar ei fferm ucheldir drwy’r dull pori padogau. Dywedodd Michael wrthym yn y digwyddiad ei fod wedi medru lleihau ei gostau mewnbwn a chynyddu ei gyfradd stocio sydd wedi arwain at elw gwell i’r busnes.

## 2. Amserlen

Ar ôl trafodaethau pellach gyda Michael, fe ddaeth yn amlwg ei fod yn rhan o grwpiau pori Quality Meat Scotland ac aethom ymlaen i drafod y posibilrwydd fy mod yn ymweld â nifer o wahanol ffermydd ucheldir yn yr Alban sydd hefyd wedi cyflwyno system bori cylchdro neu bori padogau.

**Diwrnod 1 - 13 Tachwedd 2018**

Fe es i ar fy ymweliad cyntaf i Monalt Farm yn Swydd Perth sy’n cael ei redeg gan y tad a mab, George a John Ritchie. Mae gan y fferm 580 o famogiaid magu sydd wedi’u bwydo ar borfa, gyda thri chwarter ohonynt yn famogiaid miwl Albanaidd a’r chwarter sy’n weddill yn famogiaid Texel croes miwl. Mae gan y fferm 80 o wartheg sugno hefyd. Mae’n fferm 750 erw i gyd a chefais fynd ar daith o amgylch y gwahanol fathau o borfa sydd gan y fferm, gyda 250 erw o borfa dda a 370 erw o dir pori bras. Esboniodd John ei fod wedi bod yn edrych ar sut y gallai addasu’r bridiau sydd ganddo ar y fferm er mwyn helpu gwella effeithlonrwydd y busnes yn enwedig mewn perthynas â’r nifer o ŵyn sy’n cael ei magu gan bob mamog. Esboniodd John fod gan y fferm dymor pori byr

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

iawn a bod dysgu am bwysigrwydd gwybod faint o ddeunydd sych y mae'r fferm yn ei gynhyrchu wedi bod yn werthfawr ac wedi'i alluogi i ymestyn y tymor pori trwy ddefnyddio cnydau porthiant fel swêj i fwydo'r stoc drwy'r gaeaf. Mae porfa dda yn allweddol i effeithlonrwydd busnes George a John ac maen nhw'n ail-hau'r borfa bob chwe blynedd er mwyn ei gadw'n ffres yn ogystal â sicrhau eu bod yn profi'r pridd yn rheolaidd ac yn gwasgaru calch yn ôl yr angen.





Gyda'r nos, ymwelais â fferm Michael Blanche i weld sut y newidiodd system bori'r fferm i'r system bresennol o bori cylchdro/padogau y soniodd amdano yn ei gyflwyniad yng Nghlwb Golff Aberpennar. Roedd yn braf gweld sut fedrodd roi'r newidiadau ar waith ar y fferm, sy'n dir ucheldir yn bennaf, yn ogystal â llwyddo i gynyddu faint o gig sy'n cael ei gynhyrchu fesul hectar trwy wneud defnydd gwell o'r borfa.

**Diwrnod 2 - 14 Tachwedd**

Ar fy ymweliad cyntaf gyda Michael, aethom i weld Charley ac Andrea Walker yn Barnside Farm. Mae'n fferm 650 erw ac yn ogystal â chadw defaid, mae Charley ac Andrea yn cadw 80 o Wartheg Duon Cymreig gan eu bod yn addas ar gyfer yr Ardal Lai Ffafriol. Mae Charley wedi edrych yn fanwl iawn ar eneteg y defaid gan ei fod yn bwysig iawn iddo fod y defaid yn medru magu eu hepil heb unrhyw gymorth yn ogystal â bod yn gryf a medru perfformio'n dda ar borfa'n unig. Esboniodd Charley pa gymysgedd o borfa mae'n ei ddefnyddio, sef cymysgedd o rygwellt a meillion gwyn sy'n cael eu cylchdroi bob chwe blynedd gyda chnwd o faip yn cael ei hau yn y cyfnod gorffwys. Mae'n defnyddio system bori cylchdro er mwyn gwneud y mwyaf o dwf y borfa a threuliadwyedd ei stoc. System bori lân sydd ar waith ar y fferm gan fod Charley wedi sylweddoli ei fod yn atal y cynnydd mewn llyngyr ac yn ei alluogi i wella twf yr ŵyn ar y borfa.



Ar ail ymweliad y dydd aethom ni i weld Peter Eccles ar fferm Lothian Monitor Farm. Mae Peter yn rheoli fferm Saughland sydd yn cadw 1900 o ddefaid. Yn y blynyddoedd diweddaraf, maen nhw wedi newid o system ŵyna dan do i system ŵyna allan. Maen nhw hefyd wedi newid y brîd ar y fferm o ddefaid miwl Albanaidd i ddefaid croes Romney Aberfield gan fod y brîd hwn yn galluogi Peter i reoli diadell sy'n perfformio'n well ar borfa ac yn lleihau'r amser sydd ei angen i ymyrryd adeg ŵyna. Esboniodd Peter mai diffyg lle yn y sied ar gyfer diadell oedd yn cynyddu mewn maint oedd y prif reswm dros newid y systemau a'r bridiau ar y fferm yn ogystal â'r ffaith fod newid system wedi galluogi lleihad yn y costau cynhyrchu drwy sicrhau rheolaeth dda o'r borfa.

**Diwrnod 3 - 15 Tachwedd**

Dechreuodd y diwrnod olaf o ymweliadau ar fferm Bankhouse sy'n cael ei redeg gan Graham Lofthouse. Mae Graham yn rhedeg fferm 107 hectar sydd yn cadw 560 o famogiaid a hesbinod Easycare yn ogystal â 72 o wartheg sugno Simmental. Mae'r fferm wedi bod yn gweithredu system bori cylchdro ar gyfer y defaid a'r gwartheg ers bron i wyth mlynedd ac mae newid y system wedi galluogi Graham i gynhyrchu mwy o borfa fel nad yw wedi gorfod rhentu tir pori ychwanegol. Mae hefyd wedi galluogi Graham i gynhyrchu 500 tunnell yn fwy o silwair a lleihau costau'r bwyd roedd yn ei brynu i mewn o 60%. Dywedodd Graham mai porfa yw'r porthiant o'r ansawdd gorau a'r mwyaf gwerthfawr y gallai ffermwr ei gynhyrchu, felly mae'n bwysig iawn ei fod yn cael ei reoli'n gywir er mwyn helpu gwella eich busnes a'r rheolaeth y stoc.

Ar yr ymweliad fferm olaf, aethom i Pirntaton Farm sy'n cael ei redeg gan Jim Logan y perchennog. Mae'n fferm 570 hectar sydd â thir pori dros dro a pharhaol yn ogystal ag ardal fawr o dir pori bras. Mae Jim wedi newid ychydig ar ei system yn y blynyddoedd diweddaraf drwy wneud y cyfnod ŵyna'n hwyrach a newid i system ŵyna allan sy'n ei alluogi i gynhyrchu mwy o gig fesul kg yr hectar a lleihau costau'r angen am ddwysfwyd. Mae Jim yn defnyddio system pori cylchdro sydd wedi'i alluogi i gynyddu ei ddiadell o 1350 o ddefaid i 1750 o ddefaid. Edrychodd Jim, hefyd, ar y system padogau a geneteg

yr anifeiliaid er mwyn gwneud newidiadau i strwythur ei fusnes a chyflawni'r canlyniad gorau posib.







Ar y cyfan, roedd hon yn daith werthfawr sydd wedi fy ngalluogi i ehangu fy ngwybodaeth am systemau pori padog a sut y gallaf, o bosib, eu rhoi ar waith yn fy system fferm ucheldir

## 3. Camau nesaf

Mae mynd ar y daith gyfnewid ac ymweld â'r ffermydd gwahanol yn Yr Alban, wedi gwneud i mi edrych yn fwy manwl ar sut y gallaf wneud newidiadau i fy system bori er mwyn gwella fy nghynhyrchiant presennol. Ers fy ymweliadau, rydw i wedi ymuno â grŵp trafod defaid Cyswllt Ffermio er mwyn cael cyngor ar feincnodi fy menter ddefaid ac wedi gwneud cais am fentor er mwyn cael cyngor ar sefydlu system bori cylchdro ar y tir cynhyrchiol o ansawdd uwch i ddechrau. Roeddwn eisoes wedi dechrau gwneud newidiadau i'r bridiau defaid a gwartheg roeddwn yn eu defnyddio o fewn y busnes cyn mynd ar yr ymweliad. Serch hynny, mae fy ymweliad â'r Alban wedi gwneud i mi sylweddoli fod hyn hefyd yn ffactor bwysig i'w ystyried er mwyn sicrhau bod y dewis o frid yn addas ar gyfer tirwedd y fferm, a'i fod hefyd o fudd i allbwn y busnes. Yn olaf, rydw i wedi manteisio ar y clinigau pridd a glaswelltir sy'n cael eu cynnal gan Cyswllt Ffermio i archwilio ansawdd pridd y fferm yn ogystal â chael ail farn ynglŷn â chyflwyno system bori cylchdro/padog ar y tir ucheldir a'r rhannau o dir pori o ansawdd gwell. Wedi i mi wella fy nealltwriaeth o ddefnyddio'r system pori cylchdro ar y fferm, byddaf yn edrych i weld a oes posibilrwydd o blannu gwahanol rywogaethau o borfa a allai wella a bod o fudd i'r system.

## 4. Negeseuon allweddol i'r diwydiant

1. Y pwysigrwydd o adnabod eich system fferm yn drylwyr a'r sylw i fanylder sydd ei angen i wneud gwelliannau os oes angen.
2. Roedd y ffermydd yn Yr Alban yn dda iawn am feincnodi eu busnesau fferm bob blwyddyn ac os oes problemau'n dod i'r amlwg byddent yn edrych ar opsiynau eraill posib ac yn eu trafod er mwyn gwella'r sefyllfa.
3. Porfa yw porthiant mwyaf gwerthfawr ffermwr ac mae yna brosesau sy'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth er mwyn ceisio cynyddu'r defnydd o'r borfa ar gyfer eich busnes.
4. Mae yna ddigon o gyngor ar gael i ffermwyr a allai fod o gymorth drwy ddarparu cyngor un i un ar eu systemau ffermio, er enghraifft, gwella rheolaeth tir glas.
5. Edrychwch, nid yn unig ar agweddau tir glas eich busnes, ond hefyd ar eneteg eich stoc, y systemau ŵyna a lloia rydych chi'n eu defnyddio ayb. gan fod pob un yn effeithio ar y canlyniad a'r costau cysylltiedig.